Y CRIW
Mentrus
Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

Cyfnod Allweddol 2

Gweithgaredd 10a:
Allwn ni ei werthu?

Amcan Dysgu

Darparu cyfle i ddisgyblion weithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau a datblygu atebion arloesol.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Creadigedd	Cysylltiadau	Trefniadaeth
• Datrys problemau	• Gweithio gyda Phobl Eraill	• Cynllunio

Gweithgareddau dysgu

Defnyddiwch dasg cydweddu Geiriau Allweddol Gweithgaredd 10b i esbonio termau allweddol fel:

• pris • gwerthiannau • incwm • costau • elw • cyfrifon

Trafodwch gyda'r disgyblion broses gwerthu eu cynnyrch/gwasanaeth gorffenedig.

Mae'r disgyblion yn archwilio sut i brisio eu cynnyrch a chyfrif costau/prisiau.

Mae'r grwpiau yn cydweithio i wneud penderfyniad cyfunol am bris cynnyrch / gwasanaeth.

Esboniwch pan fydd eu prosiect menter yn cynhyrchu ac yn gwerthu nwyddau neu wasanaethau, bydd angen system ar y disgyblion i gadw cyfrif o'r arian.

Efallai y gallai cyfrifydd neu gynrychiolydd banc lleol gael eu gwahodd i mewn i'r ysgol. Os defnyddir banc i ddal y cyfrif, mae angen i'r disgyblion ddeall cyfriflenni am yr adeg pan fyddan nhw'n dechrau masnachu a chronni arian.

Gan ddefnyddio TGCh gofynnwch i'r disgyblion ddyfeisio system gofnodi syml i gofnodi incwm, costau ac elw. Bydd angen iddyn nhw wybod:

• Faint o arian sydd gennych chi ar gyfer eich prosiect menter?
• Faint o arian rydych chi wedi eu gwario (costau).
• Faint o arian sydd gennych chi'n dod i mewn (incwm).
• Faint o arian sydd gennych chi yn y 'banc' (balans).

Gweithgaredd 10a:
Gallwn ni ei werthu?

Cyfnod Allweddol 2

Canlyniad dysgu

Bydd disgyblion wedi gweithio gyda'i gilydd mewn timau gyda chyfrifoldebau sydd wedi eu cytuno a'u penderfynu ar ddulliau gwahanol o brisio eu cynnyrch.

Adnoddau mae eu hangen

- Dalen adnoddau cydweddu tasgau Geiriau Allweddol Gweithgaredd 10
- TGCh

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd

Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;

- Cydweithredu a thrafod.

Rhifedd

Defnyddio sgiliau rhif

Rheoli arian e.e.

- cynllunio ac olrhain arian ac arbedion drwy gadw cofnodion cywir
- sylweddoli bod cyllidebu yn bwysig
- defnyddio'r termau elw a cholled mewn gweithgareddau prynu a gwerthu a gwneud cyfrifiadau am hynny.

2. TGCh

Syniadau Mawr Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government